# PWYLLGOR SAFONAU 23 Tachwedd, 2009

**YN BRESENNOL: AELOD ETHOLEDIG:** Y Cynghorwyr Margaret Griffith, Keith Greenly-Jones, Stephen Churchman.

**AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis-Evans, Mr Malcolm Jones, Mr Sam Soysa a Mr Gwyn Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dilys Phillips, (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**YMDDIHEURIADAU:** Mr David Clay, (Aelod Pwyllgor Cymunedol)

**CROESO :** Croesawyd Mr Gwyn Williams i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2009, fel rhai cywir.

## 3. CEISIADAU AM OLLYNGIADAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn cyfeirio at dri chais am ollyngiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion y Cyngor. Gwnaed y ceisiadau gan y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Dylan Edwards ac Eric Merfyn Jones a rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn unigol.

Atgoffwyd aelodau fod y Pwyllgor hwn wedi penderfynu ar ganllawiau penodol ar gyfer ystyried ceisiadau'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.

Yn ôl y canllawiau byddai *'gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau.'*

Amlinellwyd y strategaeth a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd. Sail y strategaeth yw adolygu dyfodol ysgolion cynradd o fewn dalgylchoedd penodol. Gwneir hyn drwy ffurfio Panel Adolygu ac yn dilyn hyn bydd yr arweinydd portffolio yn llunio cynigion ar gyfer bob dalgylch. Caiff ei chefnogi yn y gwaith yma gan banel ymgynghorol sirol, sef 6 aelod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

Esboniodd y Swyddog Monitro fod caniatâd wedi ei roi yn y gorffennol i'r holl aelodau gyfrannu'n llawn i weithgareddau'r Panel Adolygu Dalgylch. Ychwanegodd ei bod yn annhebygol y byddai'r Panel yn pleidleisio ar unrhyw fater gan mai'r Cyngor llawn fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol. Hyd yn oed pe byddai'r Panel Adolygu dalgylch yn pleidleisio ni fyddai'n effeithio ar y penderfyniad terfynol.

**Cais y Cynghorydd Elwyn Edwards**

Adroddwyd fod cais y Cynghorydd Elwyn Edwards yn berthnasol i'r adolygiad ysgolion cynradd yn nalgylch Ysgol Y Berwyn, Y Bala. Gwnaed y cais am ollyngiad cyffredinol ganddo oherwydd bod plant ei ferch yn mynychu Ysgol Bro Tegid, Y Bala.

Nodwyd fod y cais yn cael ei wneud oherwydd ei bod yn bwysig i'r aelod gyfrannu i drafodaethau yn lleol pryd y rhoddir ystyriaeth i holl ysgolion y dalgylch yn hytrach nag un ysgol benodol.

Mynegwyd pryder gan aelod oedd o'r farn fod ŵyr neu wyres yn berthynas rhy agos ar gyfer caniatáu'r gollyngiad. Nodwyd ganddo y dylid addasu'r canllawiau ar gyfer cynnwys y berthynas yma, a phwysleisiodd fod lle i warchod cynghorwyr trwy sicrhau fod eu penderfyniad i ddatgan buddiant personol yn ymddangos i fod yn briodol.

Pryderai aelod arall y gallasai gosod ffiniau rhy gaeth arwain at sefyllfa pryd y byddai penderfyniadau pwysig yn cael eu cymryd gan ganran fechan o aelodaeth y Cyngor.

'Roedd nifer o'r aelodau o'r farn fod taid/nain a ŵyr/wyres yn berthnasau a allasai ddylanwadu ar benderfyniad cynghorwyr ac y dylid eu cynnwys o fewn ffiniau'r canllawiau. Yn ogystal daethpwyd i'r casgliad y dylid ychwanegu'r berthynas o dad/mam i'r canllawiau.

**PENDERFYNWYD:**

**i) gwrthod y cais cyffredinol ond caniatáu dan baragraff (ch) ac (ff) o'r rheoliadau:**
   - **a) gollyngiad i'r aelod gyfrannu i drafodaethau yn y Panel Adolygu Dalgylch a**
   - **b) gollyngiad ar faterion yn gysylltiedig â threfniadaeth ysgolion cynradd y sir ond nid ar adegau pan fyddant yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag Ysgol Bro Tegid, Y Bala.**

**ii) bod y canllawiau ar gyfer ystyried ceisiadau am ollyngiadau mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion yn cael eu haddasu fel eu bod yn darllen fel a ganlyn:**

***Y byddai 'tad/mam, taid/nain,ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau.'***

**Cais y Cynghorydd Dylan Edwards**

Nodwyd fod yr aelod yn gwneud y cais am ollyngiad cyffredinol i'w alluogi i siarad Yn unig yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch.

Gwnaed y cais ganddo oherwydd bod ei wraig yn athrawes yn yr ysgolion, bod ei fab yn ddisgybl yn Ysgol y Berwyn, Y Bala a phlant ei frawd yn ddisgyblion yn yr ysgolion.

Nodwyd fod y cais yn cael ei wneud oherwydd ei bod yn bwysig i'r aelod gyfrannu i drafodaethau yn lleol pryd y rhoddir ystyriaeth i holl ysgolion y dalgylch yn hytrach nag un ysgol benodol.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y cais yn cyfeirio at y Panel Adolygu Dalgylch ac mai cais i siarad yn unig oedd yn cael ei chyflwyno. Nid oedd yr aelodau'n gwrthwynebu'r bwriad yma.

**PENDERFYNWYD caniatáu, dan baragraff (ch) ac (ff) o'r rheoliadau, y cais am ollyngiad i'r aelod siarad yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch.**

**Cais y Cynghorydd Eric Merfyn Jones**

Adroddwyd fod y cais yn cael ei wneud am ollyngiad cyffredinol mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion cynradd Gwynedd.

Gwnaed y cais gan yr aelod oherwydd bod ei fab yn bennaeth Ysgol Penisarwaun ac yr oedd yn nodi ei fod yn cyflwyno'r cais er mwyn cymryd rhan a chynrychioli'r etholaeth a'r sir.

Nodwyd gan aelodau y byddai'n deg i'r aelod gymryd rhan lawn mewn trafodaethau cyffredinol ar drefniadaeth ysgolion cynradd,. Fodd, bynnag pwysleisiwyd na ddylai gymryd rhan os oedd y drafodaeth yn gysylltiedig, mewn unrhyw fodd, ag Ysgol Penisarwaun.

Er bod yr ysgol benodol yma tu allan i ffiniau etholaeth yr aelod, pryderai aelod fod y berthynas deuluol yn rhy agos i ganiatáu'r gollyngiad.

**Penderfynwyd caniatáu dan baragraff (ch) ac (ff) o'r rheoliadau y cais i'r aelod siarad a phleidleisio ar faterion yn gysylltiedig â threfniadaeth ysgolion cynradd y sir oni bai fod y mater dan ystyriaeth yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag Ysgol Penisarwaun.**

**CYNHADLEDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar Gynhadledd Safonau Cymru 2009, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 15 Hydref.

Nodwyd gan y swyddog mai'r hyn a ddaeth i'r amlwg yn y Gynhadledd oedd yr angen i godi proffil y Pwyllgor Safonau. Yn sgil hyn 'roedd yn awgrymu y dylid trefnu rhaglen waith pendant a chael tri neu bedwar dyddiad o fewn calendr y Cyngor wedi ei ddynodi ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor.

Yn ogystal, cyfeiriodd y swyddog at y pwysigrwydd o sefydlu cysylltiad agos gydag arweinyddion gwleidyddol y Cyngor, ac ychwanegodd y gellid darparu adroddiad blynyddol yn cyfeirio at waith y Pwyllgor Safonau a rhoi cyhoeddusrwydd i hyn.

Adroddodd y swyddog ymhellach at yr angen i drefnu hyfforddiant i'r aelodau ac i aelodau o gynghorau cymuned parthed y Côd Ymddygiad yn ogystal â darparu taflen i nodi disgwyliadau.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y swyddog fod disgwyl i ganllawiau a ddylid eu dilyn cael eu cyflwyno gan yr Ombwdsmon cyn diwedd y mis. Croesawyd y wybodaeth yma gan y Cadeirydd ac ychwanegodd y gellid cyrraedd nifer o'r targedau a osodir trwy ystyried gwahanol ffyrdd megis cyflwyno gwybodaeth ar y we.

Cyflwynwyd gwybodaeth bellach am y wybodaeth a gyflwynwyd yn y Gynhadledd mewn gweithdai a thrwy gyflwyniadau, gan Mr Sam Soysa. Darparwyd adroddiad pellach gan Mr Gwilym Ellis Evans a diolchwyd i'r ddau am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau a gweithredu yn unol ag argymhellion y Swyddog Monitro trwy drefnu rhaglen waith pendant ar gyfer y Pwyllgor Safonau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:30pm a daeth i ben am 3:45pm

**CADEIRYDD**